# Cyngor Sir Ceredigion

# Ymchwilio i Gwynion am Sŵn

# Cyngor i'r Cyhoedd

---

Mae'r **Nodyn Cyngor** hwn yn amlinellu fframwaith y Cyngor ar gyfer gweinyddu, blaenoriaethu ac ymchwilio i gwynion ynghylch sŵn. Oherwydd yr ystod eang o gwynion sy'n ymwneud â sŵn, nid yw'n ymarferol llunio gweithdrefn ar gyfer pob digwyddiad; ymchwilir i bob achos a chaiff y canlyniad ei bennu yn ôl ei rinweddau ei hun.

Caiff cwynion ynghylch sŵn eu gosod yn ôl blaenoriaeth, ymatebir iddynt ac ymchwilir iddynt yn briodol yn ôl y meini prawf a'r amser a amlinellir yn y ddogfen hon.

Gall y swyddog ymchwilio ddefnyddio ystod o dechnegau ymchwilio, monitro a gorfodi er mwyn datrys achosion sy'n ymwneud â chwynion ynghylch sŵn. Gall opsiynau gorfodi ffurfiol gynnwys y gwasanaeth cyflwyno hysbysiadau, atafaelu offer, cyflawni gwaith nad yw'n cydymffurfio â'r hysbysiad a chymryd camau cyflenwol megis ymrwymo'r gwasanaethau cymdeithasol, yr adrannau trwyddedu neu'r heddlu lle bo ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â'r gŵyn.

**Sut i wneud cwyn**

Gellir gwneud cwyn drwy:

- Gwyno wyneb yn wyneb
- Ffonio
- E-bostio
- Anfon llythyr
- Drwy'r wefan

**Sut fydd fy nghwyn yn cael ei thrin?**

Pan ddaw cwyn i law, gofynnir am y wybodaeth ganlynol:

- Eich Enw (noder y polisi ar ddelio â chwynion dienw)
- Eich Cyfeiriad
- Eich rhif ffôn
- Manylion ynghylch ffynhonnell a natur y sŵn
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall e.e. os yw'r achwynwr eisoes wedi gwneud cwyn ynghylch yr un broblem sŵn, ac unrhyw gamau a gymerwyd gan yr achwynwr i ddatrys y broblem.

- **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd gwybodaeth ynghylch eich cwyn yn cael ei chyfeirio i'r tîm perthnasol neu i'r swyddog ymchwilio er mwyn ymchwilio iddi. Gall y Cyngor gymryd y camau gweithredu canlynol:

- Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ymchwilio i gŵyn ynghylch sŵn waeth pwy yw perchennog yr eiddo. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r Cyngor gymryd camau ffurfiol i ddatrys eich cwyn. Er y bydd y Cyngor yn cadw cyfrinachedd drwy beidio â datgelu eich enw i'r bobl/cwmni yr achwynir yn eu cylch, mae'n bosibl y gofynnir i chi gyflwyno datganiad tyst i gefnogi gweithredu ffurfiol; ni all y Cyngor warantu y byddwch yn ddienw ar y cam hwn.

- Pan fo amgylchiadau'n atal eich cwyn rhag mynd yn ei blaen e.e. sŵn o ffordd, rheilffordd neu awyren yn hedfan, gweithgarwch Y Weinyddiaeth Amddiffyn, cewch wybod am hyn a, lle'n gymwys, rhoddir manylion cyswllt sefydliadau a all gynnig cymorth pellach i chi

- Caiff y tîm trwyddedu wybod am unrhyw ganlyniadau'n deillio o ymchwiliadau i sŵn o eiddo a drwyddedir

- Rhoddir ystyriaeth i gydweithio gyda sefydliadau partner gan gynnwys Heddlu Dyfed Powys, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Adrannau eraill y Cyngor lle bo angen er mwyn ceisio cael datrysiad i'ch cwyn.

**Beth yw Niwsans Statudol?**

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng niwsans statudol a'r hyn sy'n annifyrrwch yn unig. Mae'n bosibl y cewch wybod nad yw'r sŵn yr ydych yn cwyno yn ei gylch yn **niwsans statudol** ac na all y Cyngor gymryd camau pellach ar eich rhan. Dan yr amgylchiadau hyn, cewch wybod am eich hawl i gymryd eich camau eich hun o dan Adran 82 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Caiff Niwsans Statudol ei ddiffinio yn Adran 79 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Gellir ystyried y canlynol yn niwsans statudol:

- Sŵn o eiddo neu gerbydau, offer neu beiriannau yn y stryd noise from premises or from vehicles, equipment or machinery in the street
- Mwg o eiddo smoke from premises <https://www.gov.uk/guidance/nuisance-smoke-how-councils-deal-with-complaints>
- Arogleuon o ddiwydiannau, safleoedd masnachu neu fusnesau smells from industry, trade or business premises <https://www.gov.uk/guidance/nuisance-smells-how-councils-deal-with-complaints> (er enghraifft, gwaith trin carthion, ffatrïoedd neu dai bwyta)
- Golau artiffisial o eiddo artificial light from premises
- Pla o bryfed o safleoedd diwydiannol, masnachol neu fusnesau
- Deunydd yn cronni neu'n cael ei adael ar eiddo (er enghraifft, twmpathau sbwriel yn pydru)

Er mwyn iddo gael ei ystyried yn niwsans statudol, mae'n rhaid iddo wneud un o'r canlynol:

- **ymyrryd yn afresymol** ac yn **sylweddol** â'r defnydd neu'r mwynhad o gartref neu eiddo arall
- niweidio iechyd neu'n debygol o niweidio iechyd

**Sut fyddwn ni'n blaenoriaethu eich cwyn?**

- Bydd y swyddog ymchwilio yn gosod eich cwyn mewn categori ar sail blaenoriaeth uchel, canolig, isel neu 'achos arall' ac yn ôl math, difrifoldeb a maint yr effaith a gaiff ar y nifer o bobl yr effeithir arnynt.

- Bydd newid mewn amgylchiadau'n golygu bod cwyn yn gallu symud i fyny neu i lawr y categorïau blaenoriaeth fel y bo'n briodol. Bydd y swyddog ymchwilio'n adolygu achosion ac yn eu hailasesu fel y bo amgylchiadau'n mynnu.

**Meini prawf ar gyfer achosion blaenoriaeth uchel**

Ymdrinnir ag achosion blaenoriaeth uchel yn gyntaf. Os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol yna ystyrir ei bod yn gŵyn ag iddi flaenoriaeth uchel:

- Ydi'r sŵn yn digwydd yn rheolaidd, h.y. yn amlach nag unwaith yr wythnos?
- A dderbyniwyd mwy nag un gŵyn ynghylch yr un ffynhonnell sŵn o fewn y tri mis diwethaf, megis:
    - Nifer o achwynwyr o sawl cartref ar yr un dyddiadau neu ar ddyddiadau gwahanol
    - Nifer o gwynion gan un cartref ar ddyddiadau gwahanol
- Ydi'r sŵn yn tarfu ar gwsg yn ystod y nos?
- Ydi swyddogion eisoes wedi tystio i'r niwsans ac a gafwyd tystiolaeth drwy recordiad o'r sŵn neu ddata o ap ffôn symudol?
- A gwblhawyd yn foddhaol daflenni dyddiadur sŵn mewn perthynas â chŵyn gychwynnol, a ddychwelwyd y ffurflenni hyn ac a ydynt yn dangos bod niwsans statudol yn debygol?
- Ydi'r sŵn yn debygol o effeithio'n ddifrifol ar nifer o gartrefi e.e. larwm safle neu larwm cerbyd yn y stryd neu ydi'r sŵn yn fynych neu'n barhaus e.e. mae'n digwydd am fwy na 60 munud neu am ddim llai nag 20 munud o leiaf ddwywaith mewn 12 awr?
- A yw'n barhaus, h.y. 24/7?
- Mae faint o wybodaeth y byddwch yn ei darparu hefyd yn gallu pennu'r lefel flaenoriaeth a roddir i'r gŵyn, er enghraifft, ydych chi wedi rhoi eich manylion cyswllt yn llawn (enw a chyfeiriad) ac a ydych yn fodlon caniatáu mynediad er mwyn cael asesiad o'r niwsans statudol?

Gall enghreifftiau o achosion blaenoriaeth uchel gynnwys sŵn mecanyddol estynedig, sŵn cerddoriaeth yn hwyr y nos o safleoedd a drwyddedir, larymau

diogelwch neu ddigwyddiadau tymor byr ag iddynt lefel sŵn uchel iawn megis gwaith adeiladu.

### Meini prawf ar gyfer achosion blaenoriaeth canolig

Nid yw'r gŵyn yn gwarantu ymateb ar unwaith ond gallai ddatblygu'n gŵyn flaenoriaeth uchel.

- Ydi'r sŵn yn para am gyfnod cymedrol, er enghraifft, llai nag awr yn fynych neu'n ysbeidiol, ond heb batrwm amlwg?
- Nid yw'n digwydd yn amlach na dwywaith mewn 24 awr
- Nid yw'n ailddigwydd yn rheolaidd, h.y. llai nag unwaith yr wythnos, neu
- Ydyw'n ail gŵyn lle y mae mwy na 3 mis wedi pasio rhwng y gŵyn bresennol a'r digwyddiad blaenorol?
- Ydych chi wedi rhoi eich manylion cyswllt llawn ac a ydych chi'n fodlon rhoi mynediad er mwyn cael asesiad o'r niwsans statudol?

Gall enghreifftiau gynnwys cerddoriaeth uchel o gartrefi, gwaith DIY, cŵn yn cyfarth, digwyddiadau cerddorol achlysurol sy'n gorffen cyn 23:00, sŵn o beiriannau trin aer mewn tai bwyta, tafarndai ac ati.

### Meini prawf ar gyfer achosion blaenoriaeth isel

Mae'r gŵyn yn disgyn y tu allan i'r meini prawf ar gyfer achosion blaenoriaeth canolig.  Gall hyn gynnwys:

- Digwyddiadau na chaiff eu cynnal yn rheolaidd a/neu egwyliau hir rhwng y digwyddiadau sŵn y cwynir yn eu cylch
- Sŵn ysbeidiol, byr ei barhad (e.e. llai na hanner awr) ar hap
- Cwynion sy'n ymwneud â pharti unigol mewn cartref heb hanes o gwynion yn gysylltiedig ag ef.

### Meini prawf ar gyfer achosion eraill

Ni all y Cyngor ddelio â rhai cwynion ac felly ni ellir eu datrys drwy'r gwasanaeth hwn.  Er enghraifft, sŵn trafnidiaeth (ffordd, rheilffordd ac awyrennau) ac mae ffynonellau sŵn milwrol y tu allan i awdurdodaeth y ddeddfwriaeth a orfodir gan y Cyngor.

### Sut fyddwn ni'n ymchwilio i'ch cwyn?

Pan fydd gwybodaeth ddigonol wedi dod i law er mwyn i ni ymchwilio i'r gŵyn a rhoi lefel flaenoriaeth iddi, caiff ymchwiliad ei wneud yn unol â'r raddfa amser ganlynol

### Cwynion blaenoriaeth uchel

- Byddwch yn cael galwad ffôn i gydnabod bod eich cwyn wedi'i derbyn ac anfonir cadarnhad ysgrifenedig atoch o fewn 5 niwrnod gwaith.  Lle'n briodol, trefnir ymweliad safle.
- Os amheuir bod niwsans statudol posibl, mae'n bosibl y bydd y sŵn yn cael ei fonitro.  Mae'n bosibl y gofynnir i chi ddefnyddio'r cyfleuster Ap Sŵn.
- Yn ystod yr ymchwiliad, bydd y swyddog ymchwilio'n cadw cyswllt rheolaidd gyda chi, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar y camau sy'n cael eu cymryd a chanlyniad y gweithredu hwn.

**Cwynion blaenoriaeth canolig a blaenoriaeth isel**

- Byddwch yn cael galwad ffôn i gydnabod bod eich cwyn wedi'i derbyn ac anfonir cadarnhad ysgrifenedig atoch o fewn 10 niwrnod gwaith.  Byddwch yn derbyn llythyr â thaflenni dyddiadur sŵn a dogfennau safonol eraill ynghyd â chyfarwyddiadau ar ddefnyddio'r Ap Sŵn lle'n briodol.
- Cewch eich cymell i gofnodi manylion am y sŵn sy'n tarfu arnoch mewn dyddiadur hyd nes y bydd yr achos yn cael ei ddatrys.
- Pan fydd y taflenni dyddiadur yn cael eu dychwelyd a'u bod yn dangos niwsans statudol posibl, gellir cymryd y camau gweithredu a ganlyn yn ôl disgresiwn y swyddog ymchwilio:
    - Ymgymryd ag ymweliad safle er mwyn ymchwilio ymhellach i'r sŵn
    - Gosod offer monitro a/neu recordio sŵn ar eiddo'r achwynwr
    - Cymell y defnydd o'r Ap Sŵn ar gyfer ffonau symudol
- Caiff lefel flaenoriaeth cwynion ei hailasesu drwy adolygiadau rheolaidd ar achosion wrth i dystiolaeth ychwanegol (ymweliad safle, taflenni dyddiadur, cwynion ychwanegol) ddod ar gael.

Pan fydd eich cwyn yn gysylltiedig â mater a all fod yn gyfrifoldeb ar faes gwasanaeth arall neu gorff allanol, er enghraifft, trwyddedu, cymdeithasau tai, yr heddlu, bydd y swyddog ymchwilio'n cyfeirio manylion eich cwyn i'r maes gwasanaeth priodol neu gorff allanol ac yn cofnodi'r camau a gymerwyd.

Pan na ddarperir gwybodaeth ddigonol, bydd y swyddog yn ceisio cysylltu â chi i gael y wybodaeth ychwanegol angenrheidiol, naill ai dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy lythyr.

**Yr Ap Sŵn**




Mae'r Ap Sŵn yn ffordd syml o gyflwyno recordiadau o niwsans sŵn honedig i'r Cyngor er mwyn cynorthwyo gydag ymchwiliadau parhaus i niwsans sŵn

Mae'n caniatáu i chi ddangos i ni natur y tarfu drwy sŵn yr ydych yn ei brofi ac yn caniatáu i ni flaenoriaethu eich cwyn yn briodol.  Caiff recordiadau eu cyflwyno i leoliad diogel ar unwaith a dim ond swyddogion awdurdodedig Cyngor Sir Ceredigion fydd yn gallu cael mynediad at y recordiadau hyn ac at eich data personol.

**Ymweliadau safle**

Wrth ymweld â'r safle, bydd y swyddog yn ystyried y math o sŵn y mae'n ymchwilio iddo er mwyn penderfynu ar y dull gorau o weithredu.

Mae ymchwiliadau'n debygol o gynnwys:

- Arsylwadau manwl o'r holl sŵn y tystir iddo ar eich eiddo, sŵn o'r tu allan yn ogystal â'r sŵn y cwynir yn ei gylch, e.e.
  - Sain – a ellir ei glywed dros y teledu/radio, sgwrs
  - Unrhyw nodwedd acwstig – nadu, hisian, sgrechian, hymian, curo, twrw, clepian neu gnocio sy'n ddigon afreolaidd i ddenu sylw
  - Yr ystafelloedd yr effeithir arnynt (ffenestri ar agor/ar gau)
  - Gofod amwynderau allanol yr effeithir arno, megis yr ardd
  - Parhaus neu ysbeidiol
  - Yn achos sŵn adloniant – y math o gerddoriaeth, curiad bas trwm, geiriau, teitl y gân, a ellir clywed a deall sylwadau a geiriau'r DJ/MC
  - Natur y gymdogaeth
  - Unrhyw amodau amgylcheddol a all effeithio ar ddifrifoldeb y sŵn, megis gwynt neu raddiant tymheredd
  - Disgrifiad manwl ynghylch sut, ym marn y swyddog, y mae'r sŵn yn effeithio ar y defnydd o'ch eiddo, e.e. tarfu ar gwsg neu'n ei atal, methu astudio/canolbwyntio, tarfu wrth wylio'r teledu, methu cynnal sgwrs ar y ffôn, methu ymlacio. Unrhyw nodweddion sensitif penodol sydd gan yr achwynwr (e.e. mae'n sâl neu'n gwneud gwaith shift).
  - Nifer y bobl/cartrefi yr effeithir arnynt
  - Pa mor rhesymol yw'r gweithgarwch sy'n achosi'r sŵn, gan gymryd i ystyriaeth ar ba adeg o'r dydd y mae'n digwydd, ei hyd, ei amlder ac ati.

**Nodyn:** Yn achos sŵn diwydiannol, ystyrir cynnal ymchwiliad a llunio adroddiad yn unol â BS4142: 2014.

- Mae'n bosibl y gofynnir i chi osod offer recordio sain yn eich eiddo. Gall hwn fod yn offeryn gwerthfawr ar gyfer ymchwilio i gwynion. Mae'n ddefnyddiol iawn wrth asesu sawl gwaith y mae'n digwydd, er enghraifft, cŵn yn cyfarth, ceiliogod yn canu neu gerddoriaeth uchel a gall ddangos pa mor ddifrifol yw'r broblem. Fel arall, mae'n bosibl y rhoddir cyfarwyddyd i chi gyflwyno recordiadau drwy'r Ap Sŵn.

**Cyflwyno hysbysiad lleihau sŵn**

Pan fo swyddog ymchwilio'n fodlon bod niwsans statudol yn bodoli neu'n debygol o ddigwydd neu ailddigwydd, bydd y swyddog yn ystyried cyflwyno hysbysiad lleihau

sŵn o dan adran 80 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae gan y swyddog ymchwilio'r disgresiwn i ohirio cyflwyno hysbysiad am hyd at saith niwrnod (nodyn: mae hyn yn gymwys i niwsans sŵn statudol o dan adran 79(1)(g) yn unig), tra bod y Cyngor yn cymryd y camau priodol i ddarbwyllo'r cyflawnwr i leihau'r niwsans. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn gymwys os yw'r awdurdod lleol yn fodlon na fydd gweithredu anffurfiol yn llwyddiannus neu os yw'r niwsans yn debygol o bara am lai na saith niwrnod.

Os yw'r niwsans wedi lleihau yn ystod y cyfnod gohirio, bydd y swyddog ymchwilio'n ysgrifennu at y cyflawnwr yn rhoi gwybod iddo yr ymdriniwyd â'r niwsans yn foddhaol o safbwynt y Cyngor, a'r un modd byddwch chi'n cael gwybod hynny.

**Torri hysbysiad lleihau sŵn**

Os na fydd yr hysbysiad yn golygu bod y niwsans yn cael ei leihau neu os ceir cadarnhad ynghylch torri'r hysbysiad lleihau sŵn, gall y swyddog ymchwilio ystyried unrhyw un o'r camau gorfodi ychwanegol canlynol:

- Bydd angen ymweliadau safle ychwanegol os derbynnir ail gŵyn er mwyn casglu tystiolaeth i gadarnhau'r methiant i gydymffurfio â'r hysbysiad.
- Anfon llythyron ychwanegol o rybudd
- Gwahodd y cyflawnwr i ddod i gyfweliad dan rybudd
- Erlyn a/neu ymgymryd â chyflawni gwaith nad yw'n cydymffurfio â'r hysbysiad.

**Cyflawni gwaith nad yw'n cydymffurfio â'r hysbysiad lleihau sŵn**

Os na chydymffurfir â hysbysiad lleihau sŵn, gall yr awdurdod lleol atal y niwsans drwy gyflawni'r gwaith. Cyn i unrhyw waith nad yw'n cydymffurfio â'r hysbysiad lleihau sŵn gael ei gyflawni, bydd y swyddog ymchwilio'n sicrhau bod yr un y cyflwynir yr hysbysiad lleihau sŵn iddo wedi cael gwybod am y gweithredu.

Mae'n bosibl y bydd angen cael gwarant o dan adran 81(3) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 neu adran 10(7) Deddf Sŵn 1996, cyn cael mynediad i'r eiddo a chyflawni'r gwaith, gan gynnwys atafaelu offer.

**Atafaelu offer**

Pan fo hysbysiad wedi'i gyflwyno, gellir ystyried atafaelu offer er mwyn sicrhau bod y niwsans statudol yn lleihau, yn unol â'r pwerau a nodir yn adran 80(3) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a gaiff ei egluro yn adran 10(7) ac Atodlen Deddf Sŵn 1996.

**Datrys/cau'r gŵyn**

Gall cau a datrys cwyn am sŵn ddigwydd pan fo swyddog ymchwilio wedi dilyn yr ymchwiliad hyd nes ei fod wedi'i gwblhau (gan roi ystyriaeth i unrhyw weithdrefnau lleol a phenodol yn ymwneud â sŵn) ac sy'n arwain at un o'r canlynol:

- Eich bod yn tynnu'r gŵyn yn ôl
- Na chaiff niwsans statudol ei ddynodi
- Bod gweithredu anffurfiol wedi bod e.e. cyfryngu neu lythyr rhybudd a bod y niwsans wedi lleihau
- Bod gweithredu ffurfiol wedi digwydd a'r niwsans wedi lleihau
- Bod y mater wedi'i gyfeirio i asiantaeth allanol neu i adran wahanol
- Bod y Cyngor yn pennu nad yw ymchwilio i'r gŵyn neu weithredu effeithiol gan y Cyngor yn rhesymol ymarferol.

Cewch gadarnhad ysgrifenedig ynghylch canlyniad yr achos a, lle'n briodol, cynigir cyngor ar weithredu preifat o dan adran 82 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Pan fydd eich cwyn wedi'i datrys, pa un ai a yw hyn yn digwydd yn ffurfiol neu'n anffurfiol, caiff pob cofnod, tystiolaeth a data ei ffeilio yn unol â phrotocolau mewnol yr adran.

**Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014**

Mewn nifer o achosion mae cwynion ynghylch sŵn yn codi o ganlyniad i anghydfod rhwng cymdogion neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mewn amgylchiadau lle ceir cadarnhad o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, cymerir camau priodol o dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

Caiff ymddygiad gwrthgymdeithasol ei ddiffinio o dan adran 105(4) y Ddeddf fel ***"behaviour causing harassment, alarm or distress to members or any member of the public".***

Mewn rhai achosion mae'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona'n rhedeg yn gyfochrog â deddfwriaeth arall sydd eisoes yn bodoli, megis Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 – darpariaethau niwsans statudol. Mewn eraill mae'n cynnig datrysiad cyflymach a mwy pragmataidd i broblemau a gymrodd yn hirach i'w datrys gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth gyfredol megis troi allan denantiaid sy'n niwsans.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys mesurau i warchod cymunedau rhag y niwed difrifol a all gael ei achosi gan ymddygiad gwrthgymdeithasol, sef:

- **Gorchymyn Ymddygiad Troseddol** a gaiff ei gyflwyno gan y **llysoedd** ar ôl i rywun gael ei euogfarnu am droseddu. O dan y gorchymyn, byddai'r sawl a gafodd ei euogfarnu'n cael ei wahardd o fannau a gweithgareddau penodol a byddai gofyn iddo'n ogystal edrych ar ei ymddygiad, er enghraifft, drwy ddilyn rhaglen i drin cyffuriau. Gallai torri hyn olygu bod oedolyn yn wynebu hyd at bum mlynedd yn y carchar.
- Mae **pŵer yr heddlu i wasgaru** yn caniatáu iddynt wasgaru unigolion gwrthgymdeithasol a rhoi seibiant i gymuned leol yn y tymor byr. Mae'r pŵer

yn ataliol ac yn caniatáu i swyddog ddelio ar unwaith ag ymddygiad unigolyn mewn man penodol ac atafaelu eitemau cysylltiedig.

- Mae **Hysbysiad Gwarchod y Gymuned** yn galluogi **cynghorau lleol** a'r **heddlu** i roi stop ar ymddygiad gwrthgymdeithasol amgylcheddol parhaus, megis graffiti, sŵn yn y gymdogaeth neu sbwriel ar dir preifat.
- Mae **Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus** yn bŵer sy'n caniatáu i **gyngor lleol** ddelio â niwsans neu broblem benodol sy'n niweidiol i ansawdd bywyd y gymuned leol drwy osod amodau cyffredinol ar y defnydd o'r ardal honno. Gellir defnyddio hwn i fynd i'r afael â materion fel cŵn yn baeddu a chyfyngu ar yfed alcohol.
- Mae **pŵer i gau** sy'n caniatáu i'r **heddlu** neu'r **cyngor lleol** gau eiddo lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'i gyflawni neu'n debygol o gael ei gyflawni.
- **Sail Absoliwt ar gyfer Meddiannu** a fydd yn cyflymu'r broses feddiannu mewn achosion lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddu eisoes wedi'i brofi gan lys arall.

**Rhoi llais i ddioddefwyr**

Mae'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn rhoi llais i ddioddefwyr a chymunedau yn y ffordd yr ymdrinnir ag ymddygiad gwrthgymdeithasol:

- **Sbardun cymunedol** sy'n galluogi'r dioddefwyr i fynnu bod gweithredu'n digwydd, gan ddechrau ag adolygiad o'u hachos lle bo'r trothwy a ddiffinnir yn lleol yn cael ei fodloni.
- **Unioni cymunedol** sy'n rhoi llais i ddioddefwyr mewn perthynas â'r gosb allan o'r llys ar gyfer y rhai sy'n cyflawni troseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r pwerau hyn yn fwy hyblyg, mae modd eu sicrhau'n gynt ac maent yn llai biwrocrataidd gan ei wneud yn haws i'r **heddlu, cynghorau lleol, landlordiaid cymdeithasol** ac **asiantaethau lleol** eraill fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae dioddefwyr yn greiddiol i'r broses.